**y Gaer Interpretation Project for Powys CC**
**English to Welsh translation request No 18**

| English | Cymraeg |
|---|---|
| **Int243 DL** | |
| Ambrotype of Sophie Watson (née Brown) | Ambroteip o Sophie Watson (ganwyd Brown) |
| An ambrotype, is a type of photograph made by placing a glass negative against a dark background. Sophie Brown was born in Chertsey, Surrey in February 1804. She was the daughter of William Brown, hairdresser of Brecon, and his wife Mary. Sophie was the second wife of Frederick Watkins, JP, Registrar at Christ College and Tithe Agent. Sophie died in 1861. | Mae ambroteip yn fath o ffotograff a wneir trwy osod negydd gwydr yn erbyn cefndir tywyll. Ganwyd Sophie Brown yn Chertsey, Surrey ym mis Chwefror 1804. Roedd hi'n ferch i William Brown, dyn trin gwallt o Aberhonddu, a'i wraig Mary. Sophie oedd ail wraig Frederick Watkins, YH, Cofrestrydd yng Ngholeg Crist ac Asiant y Degwm. Bu farw Sophie ym 1861. |
| **Int302 DL** | |
| Hanging Out the Washing<br>David Jones 1924-28<br>Watercolour | Rhoi Dillad ar y Lein<br>David Jones 1924-28 Dyfrlliw |
| In the 1920's, as well as spending time at Capel and Caldey Island, Jones stayed with his parents in Brockley, Kent. His studio on the first floor looked out over the back gardens of houses in his terrace. This lively picture reminds us that neighbours would all do their washing on the same day. | Yn yr 1920au, yn ogystal â threulio amser yn Ynys Bŷr, arhosodd Jones gyda'i rieni yn Brockley, Caint. Roedd ei stiwdio ar y llawr cyntaf yn edrych allan dros erddi cefn tai yn y teras roedd yn byw ynddo. Mae'r llun bywiog hwn yn ein hatgoffa y byddai cymdogion yn gwneud eu golchi i gyd ar yr un diwrnod. |
| **Int 303 DL** | |
| **Limestone Anatomy**<br>Twyn ddu Robert A<br>Newell, watercolour | **Anatomeg Calchfaen** Twyn ddu Robert A Newell, dyfrlliw |
| A band of limestone runs east west though the southern part of the Brecon Beacons. Newell has recorded where it breaks the surface at the hill summit of Twyn Ddu about one mile north of Porth-yr-ogof. His title suggests that he views it as though bones breaking through a thin skin of soil. | Mae band o galchfaen yn rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin trwy ran ddeheuol Bannau Brycheiniog. Mae Newell wedi cofnodi lle mae'n torri'r wyneb ar gopa bryn Twyn Ddu tua milltir i'r gogledd o Borth-yr-ogof. Mae ei deitl yn awgrymu ei fod yn ei ystyried fel esgyrn yn torri trwy groen tenau o bridd. |
| **Int 304 DL** | |
| Landscape with Mortar Mill<br><br>Bert Isaac, 1953 Ink and watercolour | Tirwedd gyda Melin Morter<br><br>Bert Isaac, 1953 inc a dyfrlliw |

| | |
|---|---|
| Bert Isaac taught for many years at the Institute of Education in London University. On retirement he and his wife Joan ran the Hill Court Gallery in their home in Abergavenny showing the work of many local artists. The landscapes he painted are of neglected places where human imprints are being recolonized by the forces of nature. This abandoned Mortar Mill was probably used to pulverise lime. | Bu Bert Isaac yn dysgu am nifer o flynyddoedd yn y Sefydliad Addysg ym Mhrifysgol Llundain. Ar ôl ymddeol roedd ef a'i wraig Joan yn cynnal yr Hill Court Gallery yn eu cartref yn Y Fenni gan ddangos gwaith llawer o artistiaid lleol. Y tirweddau a baentiodd oedd rhai o fannau a esgeuluswyd lle mae olion dynol yn cael eu cymryd drosodd gan rymoedd natur. Mae'n debyg bod y Felin Morter segur hon wedi'i defnyddio i falurio calch. |
| **Int 305 DL** | |
| **Bowl with Fragments Series II**<br><br>Matthew Tomalin Cast iron and copper sculpture | **Bowlen gyda Darnau Cyfres II**<br><br>Matthew Tomalin Cerflun haearn bwrw a chopr |
| Tomalin's studio lies in the lower part of the Cwm Oergwm Valley close to Llanfrynach. He is one of the rare artists who casts his iron sculptures, many of which are based on bowls, or parts of bowls, in his own foundry. His pieces though small have a monumental quality. | Mae stiwdio Tomalin yn rhan isaf Cwm Oergwm yn agos at Lanfrynach. Mae'n un o'r artistiaid prin sy'n castio ei gerfluniau haearn, gyda llawer ohonyn nhw'n seiliedig ar fowlenni, neu rannau o fowlenni, yn ei ffowndri ei hun. Mae gan ei ddarnau er eu bod yn fach bwysigrwydd mawr. |
| **Int 306 DL** | |
| **Self portrait**<br>Robert Macdonald, 1995 Watercolour | **Hunan bortread**<br>Robert Macdonald, 1995 Dyfrlliw |
| Robert Macdonald grew up in New Zealand and after a career as journalist became a mature art student in London . As an artist he specialises in vibrant watercolours of Welsh landscapes and myths. He now lives close to Brecon, is Chair of the Royal Welsh Watercolour Society and a key member of the Tower Gallery Cooperative in Crickhowell. | Magwyd Robert Macdonald yn Seland Newydd ac ar ôl gyrfa fel newyddiadurwr daeth yn fyfyriwr celf aeddfed yn Llundain. Fel arlunydd mae'n arbenigo mewn dyfrlliwiau bywiog o dirweddau a chwedlau Cymru. Mae bellach yn byw yn agos at Aberhonddu, mae'n Gadeirydd Cymdeithas Dyfrlliw Brenhinol Cymru ac yn aelod allweddol o Gydweithfa Oriel y Tŵr yng Nghrughywel. |
| **Int 299 DL** | |
| LLANTHONY TERTIA<br>EDGAR HOLLOWAY, ETCHING | TERTIA LLANDDEWI NANT HODNI<br>EDGAR HOLLOWAY, YSGYTHRIAD |
| This dramatic etching from 1948 looks up at the ruins of the Monastery Church at Capel-y-ffin. Father Ignatius was committed to the revival of monasticism in the Church of | Mae'r ysgythriad dramatig hwn o 1948 yn edrych i fyny ar adfeilion Eglwys y Fynachlog yng Nghapel-y-ffin. Roedd y Tad Ignatius wedi ymrwymo i adfywiad mynachaeth yn Eglwys |

| | |
|---|---|
| England, calling his monastery Llanthony Abbey. Edgar Holloway was an etcher and engraver who lived for a while at Capel-y-ffin. | Loegr, gan alw ei fynachlog yn Abaty Llanddewi Nant Hodni Ysgythrwr ac engrafwr oedd Edgar Holloway a fu'n byw am gyfnod yng Nghapel-y-ffin. |
| **Int300 DL** | |
| **The Monastery, Capel-y-ffin**<br>Edgar Holloway, wood engraving | **Y Fynachlog, Capel-y-ffin**<br>Edgar Holloway, engrafiad pren |
| Edgar Holloway (1914-2008) was an English artist renowned for his etchings and engravings. He was influenced by Eric Gill, the artist and writer who had established a Catholic artistic community in the Monastery at Capel-y-ffin in the 1920s. This engraving of the Monastery dates from 1948. | Artist o Loegr oedd Edgar Holloway (1914-2008) a oedd yn enwog am ei ysgythriadau a'i engrafiadau. Cafodd ei ddylanwadu gan Eric Gill, yr arlunydd a'r ysgrifennwr a oedd wedi sefydlu cymuned artistig Gatholig yn y Fynachlog yng Nghapel-y-ffin yn yr 1920au. Mae'r engrafiad hwn o'r Fynachlog yn dyddio o 1948. |
| **Int7 DL26** | |
| **Penny farthing bicycle** | **Beic penny farthing** |
| The No. 2 Ordinary Bicycle was manufactured by the Rudge Cycle Co Ltd, Coventry, around 1888. This early bicycle popularised cycling in the towns and villages of Brecknockshire. It was nicknamed ‘penny farthing’ because the relative sizes of the front and back wheels resembled the Victorian penny and farthing (quarter of a penny) coins. | Gweithgynhyrchwyd y Beic Cyffredin Rhif 2 gan Rudge Cycle Co Ltd, Coventry, tua 1888. Fe wnaeth y beic cynnar hwn boblogeiddio beicio yn nhrefi a phentrefi Sir Frycheiniog. Cafodd y llysenw 'penny farthing' oherwydd bod meintiau cymharol yr olwynion blaen a chefn yn debyg i ddarnau arian Fictoraidd y geiniog a’r ffyrling (chwarter ceiniog). |
| **Int16 DL32** | |
| **Church chest safe** | **Sêff cist yr eglwys** |
| An iron chest safe, probably 18th century, used for storing church valuables in Llansantffraed Church outside Brecon. Such valuables included the registers of baptisms, marriages and burials, and the silver chalice and plate used for communion. Chests like this were replaced by the modern floor safe with lockable door in the 19th century. | Cist haearn oedd yn gweithredu fel sêff, yn ôl pob tebyg o'r 18fed ganrif, a ddefnyddid i storio pethau eglwysig gwerthfawr yn Eglwys Llansantffraed y tu allan i Aberhonddu. Roedd pethau gwerthfawr o'r fath yn cynnwys cofrestrau bedyddiadau, priodasau a chladdedigaethau, a'r gwpan a'r plât arian a ddefnyddid ar gyfer cymun. Disodlwyd cistiau fel hyn gan y sêff llawr modern gyda drws y gellir ei gloi yn y 19eg ganrif. |
| **Submitted by:** **Liz Bickerton** **Date:** 26/01/2020 | |
| **WORDS 646** | |

| Completed by: |
| --- |